

Oedfaon Teulu

Deiniolen

Heddiw, Mawrth 16

am 10.00 o'r gloch

Llanberis

Sul nesaf, Mawrth 23

am 10.30 o'r gloch

Mae'r Oedfaon Teulu yn gyfle arbennig i aelodau'r eglwysi a phlant a theuluoedd yr Ysgolion Sul addoli Duw gyda'i gilydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Mawrth 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Charles Jones

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Mawrth 17: Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Mawrth 18: Pwyllgor Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 23: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Mr Arwel Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Lun, Mawrth 17: Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch; a phwyllgor blaenoriaid Capel Coch i ddilyn.

Nos Fawrth, Mawrth 18: Pwyllgor Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 23: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 23: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 16

10.00 a.m. - Mr Gwilym Charles Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Andrew Settattree

Mawrth 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 30

10.00 a.m. - Mr Dylan Rhys
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 583 – Dydd Sul, 16 Mawrth, 2014

Y 777

Wythnos yn ôl, os cofiaf yn iawn, roedd tudalen flaen *Gronyn* wedi ei sgwennu erbyn nos Wener. Oni bai am hynny, mae'n bosibl iawn y byddwn wedi sôn am yr awyren Boeing 777 a ddiplannodd ar ei thaith o Kuala Lumpur i Beijing ddydd Sadwrn. Ac eto, byddai wedi bod yn anodd gwybod beth i'w ddweud gan na wyddai neb ar y pryd beth oedd wedi digwydd i'r awyren. Mor hawdd fyddai sôn am derfysgaeth neu ddamwain er enghraifft, a deffro fore Sul a deall mai rhywbeth cwbl wahanol a ddigwyddodd i'r awyren a'r 239 o bobl oedd arni. Yr un peth na fyddwn i'n sicr wedi ei ddychmygu yw y byddem ni, wythnos y ddiweddarach, yn dal heb syniad beth a ddigwyddodd iddi. Ac mae hynny'n rhyfeddod o gofio'r holl offer technegol soffistigedig sydd ar awyrennau modern a'r holl systemau cyfathrebu sy'n cadw golwg ar symudiadau awyrennau a phopeth arall y dyddiau hyn. Nid heb achos y gofynnodd llawer o bobl yr wythnos ddiweddarach, 'Sut all awyren o'r fath ddiplannu'n llwyr heb i neb o gwbl wybod beth a ddaeth ohoni?'

Erbyn hyn, un ddamcaniaeth yw bod rhywun neu rywrai yn fwriadol wedi newid cyfeiriad yr awyren a thorri'r systemau cyfathrebu fel na ellid olrhain ei chyfeiriad, a bod yr awyren wedi hedfan am roi oriau dros Gefnfor India cyn plymio i'r dŵr. Os mai dyna'r gwir mae ehangder y Cefnfor yn golygu bod chwilio am yr awyren yn dasg eithriadol o anodd. Ond yn hwyr neu'n hwyrach, y tebygrwydd yw y cawn wybod beth ddigwyddodd iddi.

Yn y cyfamser, gweddiwn dros yr holl deuluoedd sy'n ofni'r gwaethaf ac sydd bellach ers wythnos gyfan yn wynebu'r posibilrwydd na welant eu hanwyliad eto. Ond er gwaetha'r ofnau, nes y ceir gwybodaeth bendant i'r gwrthwyneb bydd llawer ohonynt yn dal i obeithio a gweddio bod yr awyren wedi glanio'n ddiogel yn rhywle. Oherwydd mae'n ymddangos mai'r unig beth a wyddom am ei diflaniad yw na wyddom unrhyw beth! Ac felly, mae'r chwilio'n parhau, a chylch y chwilio hwnnw wedi newid erbyn hyn oherwydd y gred i'r awyren hedfan i gyfeiriad gwahanol.

Anwybodaeth sy'n llethu, ac wrth i'r dyddiau ddiplannu mae gobaith yn pylu. Mae hyn yn wir pan fo unigolion yn diflannu, ac mae'n wir hefyd gyda diflaniad awyren enfawr. Mae'n wir hefyd yn ein bywydau ni bob dydd. Mae'n anodd byw gydag ansicrwydd ac anwybod. Yng nghanol problemau a pheryglon rydym eisiau gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd. Beth a ddaw ohonom? Beth fydd yn digwydd? A oes gobaith i bethau wella? Oes yna ddatrys ar y broblem fawr hon? Ond yn y cyfan, gall Cristnogion ymddiried yng ngofal tyner y Duw y mae ein holl drafferthion ni a phob anwybod yn hysbys iddo. A'n gobaith mawr yw nid yn unig bod Duw'n gwybod am bopeth a wynebwn ond ei fod yn ei gariad yn bwriadu da i ni ac yn dymuno ein lles a'n cysur o hyd. Ac er i'r anwybod a'r ansicrwydd barhau, mae ffydd yn ein galluogi i gredu yn naioni a chariad Duw, ac yn ei ofal sicr amdanom.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, a byddaf fi'n arwain honno a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan Mr Gwilym Charles Williams, Bae Penrhyn ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatee. Diolch i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch ac

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Mawrth 17. Gobeithio'n fawr y bydd pob eglwys wedi ei chynrychioli. Mae'r blaenoriaid a'r diaconiaid a holl swyddogion yr eglwys yn aelodau o'r pwyllgor hwn.

Nodwch hefyd os gwelwch yn dda y bydd Pwyllgor yr Ofalaeth yn cyfarfod eto bythefnos i nos yfory, nos Lun, Mawrth 31.

Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint â phosibl fod yn bresennol gan fod angen trafod pethau o bwys i'r Ofalaeth a'i threfniadau.

Pwyllgor Capel Coch

Yn dilyn Pwyllgor yr Ofalaeth nos yfory cynhelir pwyllgor byr ar gyfer blaenoriaid Capel Coch.

Pwyllgor Cymanfa

Bydd Pwyllgor Cymanfa Annibynwyr y cylch yn cyfarfod yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Mawrth 18.

CIC

Cafwyd noson CIC wahanol echnos. Roedd y cyfarfod yng Nghilfynydd, a chafwyd noson gemau i-pad, i-box a Wi a llond bol o bitsas a siocled.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y festri nos Wener, Mawrth 28.

Casgliad Genhadaeth

Gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chworiydd, Eglwys Bresbyteriaid Cymru y mis hwn. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

Glanhau'r Festri

Tybed a oes yna rywun neu rywrai a fyddai'n gallu helpu i lanhau festri Capel Coch? Erbyn hyn dim ond dau 'dim' o lanhawyr sy'n cymryd eu tro i lanhau'r festri. Byddai'n help mawr os medrwn gael o leiaf un 'tim' arall o ddau neu dri o bobl i rannu'r gwaith trwy roi awr neu ddwy yr wythnos am fis, bob rhyw dri mis. Byddai hynny'n ysgafnhau'r gwaith. Holwch Miss Dilys Mai Roberts am ragor o fanylion.

Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11–17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Os medrwn roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Fel y gwyddoch, mwya'n byd o bobl sydd gennym i helpu efo'r casglu, mwya'n byd o arian a gesglir.

Cadeiriau

Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at y cadeiriau newydd a archebwyd i Capel Coch wedi i rai ohonoch fynegi awydd i gyfrannu at y gost trwy brynu neu gyfrannu at gost cadair.

Mae'r cadeiriau'n costio £80 yr un, ac yr ydym yn ddiolchgar am unrhyw rodd y carai pobl eu rhoi, un ai cost un gadair neu gyfraniad llai tuag at y gost. Rydym yn nodi'r £80 yn unig am fod rhai wedi gofyn faint mae'r cadeiriau'n gostio.

Archebwyd 60 o gadeiriau a fydd yn llenwi canol y festri, gyda'r bwriad o brynu rhagor o gadeiriau yn nes ymlaen.

Meinciau Capel Coch

Bwriadwn werthu rhai o'r meinciau pren er mwyn gwneud lle i'r cadeiriau newydd.

Bydd y cynnig cyntaf i'w prynu yn cael ei roi i aelodau'r eglwys, ac felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn prynu mainc rhowch wybod i Drysorydd yr eglwys, Mr Colin Jones os gwelwch yn dda.

Pris y meinciau fydd £30. Bydd angen i bawb gyflwyno cais ar bapur erbyn diwedd mis Mawrth.

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad a sawl mainc yr hoffech eu prynu os gwelwch yn dda. Bydd rhaid cyfyngu pawb i un fainc os bydd galw mawr amdanynt.

Cymdeithas Undebol Llanberis

Cafodd aelodau Cymdeithas Undebol Llanberis groeso mawr yng nghartref Dafydd a Moyra Ellis ym Mrynrefail nos Fawrth ddiwethaf. Fe ddangoswyd i ni waith coed celfydd Mr Ellis a lluniau hardd a chywrair yr oedd Mrs Ellis wedi eu gwnïo. Roedd y cyfan yn werth ei weld, ac yn destun rhyfeddod i bawb a oedd yno. Diolch yn fawr iawn iddynt am y croeso ac am y baned a'r gacen.

Y Swper Blynyddol fydd ein cyfarfod nesaf, yng Ngwesty'r Dolbadarn, nos Fawrth, Ebrill 8.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch wythnos i nos yfory, nos Lun, Mawrth 24. Y gŵr gwadd fydd Mr John H Hughes, Llanberis.

Hwn fydd y cyfarfod olaf cyn y Swper Blynyddol ddiwedd mis Ebrill.